Senedd Cymru
Y Pwyllgor Busnes

Amserlen ar gyfer ystyried: Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)

Gorffennaf 2022

Ar 4 Gorffennaf 2022, cyflwynwyd Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn y Senedd.

Yn unol â Rheol Sefydlog 26C.15, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Bil Cydgrynhoi at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a fydd yn rhoi Ystyriaeth Gychwynnol iddo.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 26C.13, ar amserlen ar gyfer yr Ystyriaeth Gychwynnol a chytunodd y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Senedd erbyn 16 Rhagfyr 2022.

Os bydd y Bil yn mynd rhagddo fel Bil Cydgrynhoi, cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylid cwblhau'r gwaith o'i Ystyried yn Fanwl erbyn 3 Mawrth 2023.